**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2018 am 2.00pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| E J King | A S Lewis | J A Raynor |
| M Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

Gaynor Winsor — Cyfrifydd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): M C Child, W Evans, C E Lloyd a/ac R C Stewart

---

## 71 Ethol Cadeirydd Dros Dro.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd D H Hopkins yn Gadeirydd Dros Dro.

**Y Cynghorydd D H Hopkins (Cadeirydd Dros Dro) fu'n llywyddu.**

## 72 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd J E Burtonshaw – Personol – Cofnod Rhif 75 - Cais Ychwanegol ar gyfer Cronfa Trafnidiaeth Leol 2018/19 - Rwy'n defnyddio Cyfnewidfa Broadway'n ddyddiol.

Y Cynghorydd R Francis-Davies – Personol – Cofnod Rhif 75 - Cais Ychwanegol ar gyfer Cronfa Trafnidiaeth Leol 2018/19 - Mae'r cynllun ar ddiwedd fy stryd (Lôn Cadog, SA2 0TS).

## 73 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2018 yn gofnod cywir.

## 74 Cronfa Gofal Integredig: Cyllid Cyfalaf.

Cyflwynodd Cydlynydd Rhaglen Bae'r Gorllewin adroddiad i gymeradwyo arian cyfalaf y GGI ar gyfer Cyngor Abertawe.

**Penderfynwyd** cymeradwyo elfen Abertawe o'r cais am grant cyfalaf y GGI a gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn adolygol.

## 75 Cynnig Ychwanegol i Gronfa Trafnidiaeth Leol 2018/19.

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm - Strategaeth Trafnidiaeth a Monitro adroddiad i gymeradwyo'r cais ychwanegol am gyllid ar gyfer Cronfa Trafnidiaeth Leol 2018/19 - Cynllun Cyfnewidfa Broadway.

**Penderfynwyd** cymeradwyo’r cais ychwanegol ar gyfer Cronfa Trafnidiaeth Leol 2018/19 yn adolygol.

## 76 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 77 Cynnig Ychwanegol i Gronfa Trafnidiaeth Leol 2018/19.

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm - Strategaeth Trafnidiaeth a Monitro adroddiad i gymeradwyo'r cais ychwanegol am gyllid ar gyfer Cronfa Trafnidiaeth Leol 2018/19 - Pont Baldwins a Chyffordd Dyfaty.

**Penderfynwyd** cymeradwyo’r cais ychwanegol ar gyfer Cronfa Trafnidiaeth Leol 2018/19 yn adolygol.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.26 pm

**Cadeirydd**